



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Profi
Olrhain
Diogelu

Test
Trace
Protect



DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE

A ydych chi'n ofalwr di-dâl neu yn darparu gwasanaethau gofal a chymorth yn eich cymuned, yn aelod staff â thâl neu yn wirfoddolwr?

Os felly cewch brofion COVID cyflym am ddim a elwir yn brofion llif unffordd, wedi'u danfon at eich cartref neu drwy eu casglu o'ch safle profi lleol - Cael profion llif unffordd COVID-19 cyflym os nad oes gennych symptomau:

llyw.cymru/proficyflym

Rydym yn argymhell eich bod yn defnyddio'r profion cyflym ddwywaith yr wythnos, bob tri neu bedwar diwrnod, cyn ichi fynd i'r gwaith neu gychwyn ar eich rôl gofalu. Mae'r pecynnau profi yn cynnwys cyfarwyddiadau am sut i gwblhau'r prawf. Cofiwch nad yw'r profion yn ddibynadwy 100% ac er eu bod yn cynnig rhywfaint o sicrwydd ychwanegol, fe ddylech barhau i ddilyn ymbellhau cymdeithasol (pan fo modd), hylendid dwylo ac anadlol uchaf a defnydd effeithiol o gyfarpar diogelu personol. Efallai eich bod chi neu'r rhai yr ydych yn gofalu amdanynt wedi derbyn pob un o'ch brechiadau ond oherwydd perygl amrywiolion newydd mae'n bwysig eich bod chi'n parhau i gymryd profion a'r gweithgareddau eraill hyn er mwyn diogelu pobl.

Mae'n bwysig eich bod yn cofrestru canlyniad eich prawf os yw'n positif, negyddol neu yn annilys drwy'r wefan hon: www.gov.uk/report-covid19-result

Os oes canlyniad COVID cyflym positif gennych, fe ddylech gymryd prawf COVID canlynol (PCR) o fewn 24 awr a hunanyysu nes cael eich canlyniad. Fe allwch archebu eich prawf COVID canlynol (PCR) ar-lein ar www.gov.uk/get-coronavirus-test neu drwy alw 119. Os oes prawf COVID canlynol (PCR) positif gennych, bydd yn rhaid ichi ynysu am 10 niwrnod. Os oes prawf COVID canlynol (PCR) negyddol gennych, cewch ddychwelyd at eich gwaith neu rôl gofalu.

Mae pobl y dylent ystyried defnyddio'r pecynnau profi hyn yn cynnwys:

- Cynorthwywyr Personol (sy'n darparu gofal a cymorth unigol i bobl yn eu cartrefi eu hunain).
- Gofalwyr di-dâl.
- Gyrwyr cymunedol (sy'n cludo pobl agored i newid at ac o wasanaethau allweddol).
- Pobl sy'n gweithio mewn gwasanaethau llety â chymorth.
- Pobl sy'n darparu gwasanaethau cymorth cymunedol eraill fel gofal a thrwsio, cymorth unigol.
- Staff Asiantaeth sy'n darparu gwasanaethau lechyd a Gofal Cymdeithasol.